# Adolygu Addysg Gynradd yn Nalgylch Y Berwyn

Newyddlen 2

Addysg

Atodiad Ch2

Dyma'r ail mewn cyfres o newyddlenni i sylw staff ysgolion, rhieni ac eraill sy'n amlinellu'r trafodaethau ar ad-drefnu ysgolion dalgylch Y Berwyn. Cylchredwyd y newyddlen gyntaf ar ôl cyfarfod cyntaf Panel Adolygu Dalgylch Y Berwyn ar 4 Tachwedd 2009. Gan fod y Panel bellach wedi cyfarfod eto (ar 2 Rhagfyr 2009) mae'n amserol cynnig diweddariad.

**Beth sydd wedi digwydd ers y cylchlythyr diwethaf?**

***Ymweliadau â siroedd eraill***

Ar gais y Panel Adolygu Dalgylch, trefnwyd ymweliad â siroedd eraill i weld ysgolion ac i drafod profiadau athrawon ac eraill o ad-drefnu ysgolion. Aeth 5 o benaethiaid ysgolion y dalgylch ar yr ymweliad ar 30 Tachwedd 2009 gyda swyddog o Adran Addysg y Cyngor.

Ymwelwyd ag Ysgol Arberth, sef ysgol newydd sbon ddwyieithog yn ne Sir Benfro ar gyfer tua 300 o ddisgyblion. Aethpwyd ymlaen at Ysgol Y Frenni yng Nghrymych, sef ysgol ar gyfer tua 170 o blant sydd yn rhannu campws gydag Ysgol Uwchradd, canolfan hamdden, theatr a sinema gymunedol, llyfrgell, canolfan addysg i oedolion, a meithrinfa. Gorffennwyd yr ymweliad yn Ysgol Bro Siôn Cwilt yng Ngheredigion fydd yn agor yn ystod Ionawr 2010.

Bu'r ymweliad yn un buddiol er mwyn dysgu gwersi gan ardaloedd eraill. Pwysleisiwyd wrth adrodd yn ôl i'r Panel Adolygu Dalgylch ar 4 Rhagfyr 2009 nad oedd unrhyw ragdybiaeth y byddai unrhyw un o'r esiamplau yn addas ar gyfer y Berwyn.

***Cyfarfodydd gyda staff ysgolion unigol***

Un o brif ymrwymiadau'r Cyngor wrth gychwyn ar y broses oedd sicrhau bod staff, rhieni ac eraill yn rhan lawn o'r broses o ganfod y ffordd ymlaen yn y cylch. Yn dilyn cais y Panel Adolygu Dalgylch, gohiriwyd y cyfarfodydd hyn tan ar ôl cyfarfod nesaf y Panel Adolygu Dalgylch ar 4 Chwefror 2010. Bydd swyddogion y Cyngor yn cysylltu i drefnu cyfarfodydd gydag ysgolion unigol yn ystod wythnos 8 Chwefror 2010.

**Ail gyfarfod Panel Adolygu Dalgylch Y Berwyn, 2 Rhagfyr 2009**

Rhoddwyd diweddariad ar ymweliadau ac addasiadau i wybodaeth ystadegol ar ddechrau'r cyfarfod. Cymeradwywyd y dadansoddiad ystadegol fel un cywir a chyflawn gan y Panel cyfan.

Cyflwynwyd gwybodaeth am sefyllfa gyllidol ysgolion y cylch gan Reolwr Cyllid Addysg Cyngor Gwynedd. Aeth ymlaen i adrodd ar ragolygon posib ar gyfer y 3 mlynedd nesaf. Seiliwyd yr rhain ar ragolygon niferoedd disgyblion (a gytunwyd gan bob ysgol yn unigol) ac arbedion tebygol y bydd angen i'r Cyngor wneud.

Yn dilyn cais y Panel yng nghyfarfod 4 Tachwedd 2009 i swyddogion baratoi gwybodaeth am y math o fodelau amgen fyddai'n bosib, cyflwynwyd papur yn amlinellu dros 40 o fodelau posib. Cytunwyd bod rhai yn fwy synhwyrol nag eraill. Gofynnwyd i gynrychiolwyr ysgolion rannu i grwpiau er mwyn trafod gan ofyn iddynt ymateb i'r modelau a gynigiwyd ac i gynnig unrhyw fodelau amgen.

Ar ddiwedd y cyfarfod, cynigiwyd crynodeb gan DRJ o'r modelau y byddai angen i swyddogion wneud gwaith pellach arnynt. Nodwyd fod cynrychiolwyr ysgolion wedi cynnig yr isod:

- Ysgolion y dalgylch i gydweithio.
- Ysgolion Bro Tegid a Beuno Sant naill ai yn uno i greu Ysgol Ardal newydd neu yn uno gydag ysgol Y Berwyn i greu Ysgol Gydol Oes gydag ysgolion Bro Tryweryn, Ffridd y Llyn, O M Edwards a'r Parc yn cydweithio.



CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

Nodwyd fod y Pennaeth Addysg wedi amlinellu modelau pellach y byddai'n ddyletswydd ar y Cyngor i'w hystyried, sef:

- Ysgolion Bro Tegid a Beuno Sant yn naill ai yn uno i greu Ysgol Ardal newydd neu yn uno gydag ysgol Y Berwyn i greu Ysgol Gydol Oes yn ogystal ag ysgol Y Parc yn cau â'r disgyblion yn mynychu ysgol O M Edwards. Bro Tryweryn i gydweithio gyda Ffridd y Llyn ac/neu yr ysgol newydd yn nhref Y Bala.
- Ysgol Bro Tryweryn yn uno ag ysgolion tref y Bala i wneud cynllun Ysgol Ardal neu Ysgol Gydol Oes. Ysgolion O M Edwards, Y Parc a Ffridd y Llyn i gydweithio â'i gilydd neu â'r ysgol newydd yn nhref y Bala.
- Ysgol Bro Tryweryn yn uno ag ysgolion tref y Bala i wneud cynllun Ysgol Ardal neu Ysgol Gydol Oes. Ysgol Y Parc i gau a'r disgyblion i fynychu ysgol O M Edwards. Ysgolion O M Edwards a Ffridd y Llyn i gydweithio gyda'r ysgol newydd yn nhref y Bala.
- Ysgolion cynradd y dalgylch i uno a chreu un Ysgol Ardal newydd.
- Pob ysgol gynradd, ynghyd â'r uwchradd i uno i greu Ysgol Gydol Oes newydd.

Dylid pwysleisio nad oes unrhyw benderfyniad wedi'i wneud hyd yn hyn – sail i waith pellach yn unig sydd yma.

**Dyddiad y Cylchlythyr nesaf**

Bydd y cylchlythyr nesaf yn cyrraedd eich ysgolion ar ôl cyfarfod nesaf Panel Adolygu Dalgylch Y Berwyn ar 4 Chwefror 2010.

**Gwybodaeth Bellach**

Mae mwy o wybodaeth ar gael ar wefan y Cyngor neu drwy gysylltu â'r Adran Addysg ar 01286 679 247 neu e-bost trefniadaeth.ysgolion@gwynedd.gov.uk